

Y lle mae Iesu...

“Un corff sydd, ac un Ysbryd, yn union fel mai un yw’r gobaith sy’n ymhlyg yn eich galwad.” (adn. 4)

Beth am ddarlflen Effesiaid 4:1–6 ac yna myfyrio

Rhaid i ni wynebu’r dyfodol gydag Efengyl sydd yn parchu pawb yn ddiwahân, yn rhoi cyfle i bawb yn ddiwahân, yn rhoi gwerth ar bawb yn ddiwahân. Mae’r eglwys hynny sydd yn ystyried eu hunain yn bwysig oherwydd dosbarth y bobl sydd yn dod yno neu hil y bobl sydd yn dod yno, yn amgueddfeydd a dim mwy. Mae’r Arglwydd Iesu wedi ymadael â hwy gan eu gadael yn farw. Ni allwch gau allan mab yr un dyn heb gau allan Mab y Dyn. Os y bydd i’r Eglwys yn yr unfed ganrif ar hugain gydymffurfio ar sail hil neu ddsbarth, ni fydd byth yn dystiolaeth rymus i’r byd.

Mae’r frawddeg yr ydym wedi bod yn edrych arni, “Yn yr eglwys yn Antiochia yr oedd yna broffwydi ac athrawon, Barnabas a Simeon (a elwid Niger)”, wedi ei disgrifio fel un o’r cymalau mwyaf chwyldroadol yn y Testament Newydd. Mae’n chwala ein trefn arferol ni. Fe gofiwch fod Duw wedi caniatáu i feibion Israel i grwydro yn yr anialwch am ddegawdau cyn eu bod yn barod i fynd i mewn i Wlad yr Addewid. Tybed a yw Duw yn gwneud yr un peth gydag adrannau o’r Eglwys heddiw, yn eu cadw yn yr anialwch oherwydd eu hanfodlonrwydd i wynebu’r ffaith mai un yw dynoliaeth.

Mae gwir gariad yn gariad at bawb ac ni ddylid cydymffurfio ar hyn. Cymerodd Iesu bobl oedd yn ddim yng ngolwg y byd gan eu gwneud yn gewri yng ngolwg y nefoedd. Cymerodd bysgotwyr gan eu gwneud yn athrawon. Bu i’r Meistr ymddiried iddyn nhw y ddsgeidiaeth fwyaf gwerthfawr a roddwyd i ddyn erioed. A oes yna’r fath beth â dosbarth neu ragfarn yn y cartref? Sut all hyn fod? Cartref oedd yr Eglwys Fore – cartref teulu Duw – ac oherwydd hyn nid oedd yna yr un fath o ragfarn. Lle mae Iesu, nid oes rhagfarn, a dyna ddiwedd y gân.

Beth am fynd ymlaen i ddarlflen:

Lef. 19:9–15; Diar. 21:13; 1 Tim. 5:21; Iago 2:1–13; 1 Pedr 3:7

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut mae’r Beibl yn ystyried ffafriaeth?
2. Sut all rhagfarn atal ein gweddiâu?

Gweddi

O Dad, ni allwn ddiolch i ti ddigon fod pob person yn werthfawr yng ngolwg yr Arglwydd oherwydd bu i Iesu farw dros bawb yn ddiwahân. Mae yna werth anghymharol i hyn, a phosibiliadau diderfyn. Diolch, yn enw Iesu. Amen.